Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro
Tasgau Cyfoethog

Ardal: Gardd/Parc **Amcan Dysgu**: Creu tabl i gofnodi dodrefn mewn parc ac ystyried a yw'n bosibl cynnal ymweliad dosbarth/ysgol	**Grŵp Blwyddyn y CC:** Blynyddoedd 5/6

Maes Dysgu: Mathemateg/Rhifedd
Rhaglen Astudio Mathemateg
Datblygu Ymresymu Rhifyddol:
Adnabod prosesau a chysylltiadau
Trosglwyddo sgiliau mathemategol i amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd
Adnabod y camau a'r wybodaeth briodol sydd eu hangen er mwyn cwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiad
Dewis mathemateg a thechneg briodol i'w defnyddio
Cynrychioli a Chyfathrebu
Egluro canlyniadau a gweithdrefnau'n glir drwy ddefnyddio ieithwedd fathemategol
Defnyddio nodiant, symbolau ac unedau mesur priodol
Adolygu
Dehongli atebion yng nghyd-destun y broblem ac ystyried a yw'r atebion yn synhwyrol
Defnyddio data i ddod i gasgliadau, a chydnabod y gall rhai casgliadau fod yn gamarweiniol neu'n ansicr

Defnyddio Sgiliau Data
- Casglu a chofnodi data, cyflwyno a dadansoddi data. Dehongli canlyniadau.

Defnyddio Sgiliau Rhif
- Galw tablau lluosi i gof
- Defnyddio strategaethau dyblu a haneru

Pennawd (Addas i Blant)
A oes unrhyw le yn y Parc?
(addaswyd o Brawf Ymresymu Rhifyddol Blwyddyn 5 2016, C5)

Meini Prawf Llwyddiant
- Gallaf gasglu gwybodaeth yn ystod ymweliad â'r parc
- Gallaf greu fy nhabl fy hun ar gyfer cofnodi'r wybodaeth
- Gallaf ddefnyddio fy nghanfyddiadau i ddatrys problem

Beth i'w wneud:
Dysgu blaenorol – gwybod sut i greu tabl i gasglu data mewn fformat systematig
e.e. sawl coes sydd yn ein hystafell ddosbarth yn gyfan gwbl?

Ymweliad â'r Parc:
Casglu gwybodaeth i gofnodi sawl darn o ddodrefn sydd yn y parc i eistedd arnynt.
Dylai'r disgyblion benderfynu ar y dull gorau o gofnodi'r dodrefn a welant.
Faint o ddisgyblion sy'n gallu eistedd wrth bob mainc, boncyff, sedd, bwrdd picnic ar y tro?
Lluniadwch dabl i ddangos y wybodaeth.

Cwestiynau i'w gofyn:

- Bydd pob math o bobl yn ymweld â'r parc. Sut bydd y wybodaeth hon yn newid os bydd oedolion sy'n dymuno eistedd?
- A allwch chi gofnodi nifer y posibiliadau ar gyfer faint o oedolion/plant allai eistedd ar un adeg?
- Faint yn fwy o feinciau/byrddau picnic fyddai eu hangen er mwyn i'r ysgol gyfan ymweld ar yr un pryd?

Adnoddau:
Offer mesur
Dull o gofnodi canlyniadau